

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn i ddilyn y Ctyfarfod Blyneddol Nos Iau 23ain o Fai 2019  
yn Eglwys Sant Pedr Penrhosgarnedd

## Agenda

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Broses cyfethol i ward Faenol yn sgil ymddiswyddiad Cyng Richard T Jones

Derbyn cofnodion 11fed o Ebrill 2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 24ain o Ebrill a 22ain o Fai

Cymeradwyo unrhyw argymhelliad o Is-bwyllgor Cyllid 22/05/19

Ceisiadau Cynllunio Troed y Fodol C19/0385/25/LL Estyniad a newidiadau

Prydlesi Canolfan Penrhosgarnedd

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Ad-daliad Ysw
- Adroddiad
  - Hysbysfydd Ysb Gwynedd
  - Fynwent
  - Torri gwair ychwanegol
  - Nosweithiau cyfarfodydd
    - Cyngor llawn Ail Nos Iau y mis ar hyn o bryd
    - Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher olaf y mis ar hyn o bryd

Materion y Cynghorwyr

# Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Iau 11<sup>eg</sup> o Ebrill 2019 yn Parc Menai am 7pm

## Presennol:

Y Cyng. R Jones, J. Griffiths, D W Jones, J Pierce, C. E Hughes, M Baines, a M Lynch  
E Jones (Clerc )

## Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, B Jones, L James, T Anwyl-Williams a H Griffiths

Cadeirwyd ac offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

## Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant os cyfyd yr angen  
Gan fod Prydles Canolfan Penrhosgarnedd ar yr Agenda, nodwyd a chofnodwyd fod Cyng Richard Jones yn  
drysoyydd y Ganolfan a fod y Cyng M Baines yn gadeirydd y Ganolfan

Derbyn cofnodion 27ain o Fawrth 2019

Derbynwyd cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng J Pierce ag a eilwyd gan y Cyng J Griffiths

## Materion yn codi o'r cofnodion

**Hyfforddiant** Unllais ar Cod Ymddygiad – 'roedd y Clerc wedi derbyn tri dyddiad posib ar gyfer yr  
hyfforddiant yma sef 25ain o Ebrill, 23ain o Fai neu 27ain o Fehefin. Cytunwyd gan fod cyn lleied yn  
bresennol i'r Clerc gysylltu a phawb ar e-bost i ddarganfod pa ddyddiad fyddai mwya cyfleus.

**Parcio** Adroddodd Cyng M Baines fod cyfarfod wedi ei gynnal ynglyn a parcio yn gyffredinoll a gor-yrru ar  
Ffordd Penrhos. 'Roedd tua 70 wedi mynychu a trafodaethau yn dal i fynd ymlaen

**Hysbysfwrdd Ysg Gwynedd** Cyng D Jones Morris wedi trafod gyda swyddogion o fewn yr Ysbyty – Maent  
yn hapus yn ein cefnogi – angen i D E Williams y contractwr gysylltu i gytuno ar y lleoliad

## Adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid 27-03 - 18

Dosbarthwyd mantolen ariannol am Mis Mawrth oedd yn dangos mae £32,313.46 ddylai fod yn y cyfrif  
ddiwedd busnes heddiw

Dosbarthwyd mantolen banc yn dangos balans o £47,617.58 yn y banc oedd yn sylweddol uwch

Y prif reswm dros hyn oedd fod HMRC wedi ad-dalu **£14,561.12c TAW i'r cyfrif mewwn cam-gymeriad.**

Bu rhaid i'r Clerc a'r Cyng D Jones-Morris arwyddo gorchymun i drosglwyddo £10K ohono yn ol hefo  
trosglwyddiad banc heddiw a byddai'r £4,561.12 oedd weddill yn cael ei drosglwyddo fory 28ain o Fawrth.  
Diolchwyd i'r Cyng am ddod lawr i'r Banc yn ystod y dydd

'Roedd hefyd 1 sic am £300.00 heb ei chyflwyno.

Nid oedd yr ad-daliad TAW cywir o £2927.04 wedi ei dderbyn ond mi oedd Cyngor Gwynedd wedi ad-dalu  
£428.00 am dorri llwybrau cyhoeddus wedi ei dderbyn

Opus Energy – cyflenwyr trydan Uned 15 heb ad-dalu £56.55 gor-daliad yn ol chwaith

## Taliadau

Cytunwyd argymell y taliadau isod

Cyflog	Mis 12	£443.00	HMRC	Mis 12	£110.80
Anghenion Swyddfa Gwynedd	Ink	£74.40	Dafydd Hardy	Syrfe y Capel	£120.00
Costau'r Clerc	Costau Blwyddyn	£355.25	Traelia Cyngorwyr	x £150.00	£450.00
James Cyf	Kerbio ag ail-wynebu Llwybrau y Fynwent				£16,014.22

M Williams Ail-adeiladu'r Postyn Cerrig a wal Giat y Fynwent Nid oedd Infois wedi cyrraedd

Delwedd Gwasanaeth y Wefan Nid oedd Infois wedi cyrraedd

Argymell trosglwyddo £5000.00 arbedion o gostau y Swyddfa i'r Cyfrif Cynilo Busnes

Ceisiadau Nawdd Dim cais wedi ei dderbyn

Derbynebbion Ad-daliad TAW anghywir a Torri Llwybrau £428.00

Infois Mr M Williams am godi pilar y giat yn y fynwent wedi cyrraedd a chan y byddwn yn adennill y gost a ddim yn cyfarfod tan 23ain o Fai rhoddwyd caniatad i dalu y swm £1980

Prydles canolfan Penrhos / Gamlins

Gan fod Cyng R T Jones a M Baines wedi datgan buddiant a felly ddim yn gallu cymeryd rhan yn yr eitem yma ni fu posib ei drafod gan na fyddai gennym Gworwm.

Materion Cynghorwyr

Gofynnodd **Cyng R T Jones** os oedd cynlluniau terfynnol y Ganolfan Newydd wedi eu derbyn a'i anfodlonrwydd nad oedd Pwyllgor Rheoli y Ganolfan wedi cael mewnbwn yn y trafodaeth hefo Geraint Owen Cyngor Gwynedd yn ystod Chwefror.

Esbonwyd fod y Cyng M Baines wedi datgan siomedigaeth y pwyllgor yng Nghyngor Llawn Mis Mawrth ag i ni esbonio bryd hynny na mater i Cyngor Pentir fel Deiliaid y Brydles oedd trafod gyda Cyngor Gwynedd. 'Roedd y Pwyllgor Rheoli yn cael eu cynrychioli drwy'r Cyng T Anwyl Williams ag y dylai unrhyw sylwadau ddod i Cyngor Pentir drwy Cyng TAW

Datgelodd Cyng RTJ eto ei anfodlonrwydd ar y mater ag nad oedd Cyngor Pentir wedi trin y Pwyllgor Rheoli yn deg nac wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at y Ganolfan bresennol

Gofynnodd y Cadeirydd iddo ystyried ei ymddygiad ag nad oedd mewn sefyllfa i drafod y ganolfan gan ei fod yn amlwg a buddiant personol yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Trysorydd y Ganolfan

**Cyng J Griffiths** yn adrodd fod y ceblau BT yn dal heb eu atgyweirio ar ffordd Felin Hen o Glasinfryn a croeswodd a chanmol criw casglu sbwriel Cymunedol Waen Wen

**Clerc i gysylltu unwaith eto a BT**

**Cyng C E Hughes** yn awyddus i gael mwy o wybodaeth ar sut i gael hadau blodau gwyllt ar y llain tir yn Rhydygroes

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50